## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24ain Ionawr 2024** |
| **Teitl:** | **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y Gofrestr Risgiau Corfforaethol** |
| **Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet** | **Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd** |

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Yn ystod chwarter dau, nodwyd risg ychwanegol; R023: Diwedd Oes Systemau, yn benodol, ynghylch mater diwedd oes system WCCIS, ond hefyd yn cydnabod bod pob dyddiad gorffen o ran contractau systemau meddalwedd yn peri risgiau i'r cyngor. Cytunwyd ar hyn yn y Grŵp Arweiniol ac mae bellach wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd bellach wedi'i diwygio i rannu'r risg R009 yn R009: Rheoli Gwybodaeth ac R024: Seibergadernid fel yr argymhellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27/09/2023.

Cynhaliwyd adolygiad o statws diweddaraf y risgiau yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 13.12.23 lle trafodwyd a chytunwyd ar ymgeiswyr am ddyrchafiad / gostyngiad i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

### Isgyfeiriwyd o gorfforaethol i wasanaeth

Dim

### Uwchgyfeiriwyd o wasanaeth i gorfforaethol

Cadarnhaodd cyfarfod y Grŵp Arweiniol y byddai R023 yn cael ei gynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiweddaraf.

Mae'r sgôr risg ar gyfer R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi cynyddu o 20 i 25 i adlewyrchu'r sefyllfa ariannol bresennol a'r heriau disgwyliedig sydd o'n blaenau.
Mae sgôr y risg ar gyfer R009: Rheoli Gwybodaeth, wedi gostwng i 16.
Mae sgôr y risg ar gyfer R021: Ffosffadau wedi gostwng i 16.

Mae'r holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac maent yn cynnwys y statws RAG diwygiedig o gamau lliniaru a sylwadau wedi'u diweddaru.

**Argymhelliad:** **Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd wedi’i diweddaru**

**Rheswm dros y penderfyniad:** **Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli Risgiau Corfforaethol cyfredol yn briodol yn unol â Strategaeth a Fframwaith y Risgiau Corfforaethol**

**Atodiadau:** Atodiad A – Cofrestr Risgiau Corfforaethol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd)

**Swyddog Adrodd:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd)

**Dyddiad:** **13eg Rhagfyr 2023**

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Adolygwyd a diweddarwyd gan y Grŵp Arweiniol ar | 13/12/2023 |
| Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei monitro oedd | 27/09/2023 |
| I'w chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar | 24/01/2024 |

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

## Cynnwys a Chrynodeb

| Enw'r Risg | Perchennog | Statws y Risg | | | Statws yr Adolygiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Sgôr | Statws | Tuedd | Gan | Pryd |
| R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Duncan Hall | **25** | ■ | ↑ | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol | 19/07/2023 |
| R009: Rheoli Gwybodaeth | Alan Morris | **16** | ■ | ↓ | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 19/01/2022 |
| R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd | Russell Hughes Pickering / Rhodri Llwyd | **25** | ■ | → | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus | 22/06/2023 |
| R020: Clefyd Coed Ynn | Rhodri Llwyd | **20** | ■ | → | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus | 19/10/2022 |
| R021: Ffosffadau | Russell Hughes-Pickering | **16** | ■ | ↓ | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus | 07/12/2022 |
| R022: Recriwtio a Chadw | Geraint Edwards | **15** | ■ | → | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol | 19/07/2023 |
| R023: Diwedd Oes Systemau | Alan Morris | **20** | ■ | Newydd | | |
| R024: Seibergadernid | Alan Morris | **20** | ■ | → | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 19/01/2022 |

**Allwedd y Risg**

| | | |
|---|---|---|
| ▲ | Red | High Risk |
| ● | Amber | Medium Risk |
| ★ | Green | Low Risk |

**Trend Key**


| | |
|---|---|
| ↑ | Risk score has increased |
| → | No change to risk score |
| ↓ | Risk score has decreased |

# Risg Gorfforaethol R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Duncan Hall

### Disgrifiad

Bydd lleihau cyllid craidd a chyllid allanol yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. Bydd peidio ag addasu, gweithredu'r arbedion a nodwyd ac ystyried modelau gwahanol o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau ariannol y Cyngor.





### Y Canlyniadau Posibl

• Risg o beidio â chwrdd â'r terfynau amser o ran pennu'r gyllideb statudol. • Risg y bydd llai o adnoddau, llai o amser i roi newidiadau i wasanaethau ar waith, neu fethu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. • Risg na fydd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. • Risg bod y gwaith o bennu'r gyllideb yn flynyddol yn rhwystro'r broses gynllunio ar gyfer y tymor hwy

### Tystiolaeth o'r Risg

• Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 05/09/23 a'r Cyngor Llawn ar 21/09/23 yn dangos bwlch yn y gyllideb o £15.9m ar gyfer y blynyddoedd ariannol 24/25 i 26/27, gan gynnwys diffyg posibl yn y gyllideb o £6.4m ar gyfer 24/25.
• Roedd angen arbedion o £8.8m ar gyfer cyllideb 23/24 ac mae cynnydd dangosol o 3.1% ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer 24/25 (a fyddai ond yn rhoi cynnydd o £4m yn y cyllid)
• Mae lefel cyllid allanol cyfun Llywodraeth Cymru wedi gostwng dros y blynyddoedd o tua 80% i lawr i ychydig dros 70% o'r gyllideb refeniw, gan roi llawer mwy o faich ar gyllid a godir yn lleol drwy Dreth y Cyngor.
• Mae lefelau chwyddiant uchel yn dal i gael eu gweld mewn nifer sylweddol o feysydd, ac yn bennaf oll mae Tâl Gweithwyr sy'n rhan sylweddol o'r Gyllideb yn ogystal â chwyddiant Ynni, Bwyd a Chontractwyr / Darparwr. Cydnabuwyd llawer o'r rhain a darparwyd ar eu cyfer yng Nghyllideb 23/24, fodd bynnag y risg yw bod chwyddiant (ac felly pwysau costau) yn parhau i fod yn uchel am gyfnod hwy.
• Mae 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu' newydd bellach ar waith ac yn dechrau cyflawni ar gyfer 23/24. Mae'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant newydd hefyd yng nghyfnodau cynnar ei thaith weithredu a chytunwyd ar y flwyddyn gyntaf o gyllid o £4m ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru. Bydd angen i'r rhain oll gyflawni ar draws y tymor canolig, yn ogystal â pharhau i fanteisio ar gyfleoedd o'r math Buddsoddi i Arbed wrth iddynt godi.
• Mae hanes cadarn blaenorol yn bodoli o fantoli Cyllidebau a sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn o ran Alldro gydag opsiynau diamod Archwilio Cymru o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Mantolen y Cyngor (cyn-archwiliad) ar 31/03/2023 yn gryf sy'n cyfrannu at gydnerthedd ariannol cryf.
• Mae enghreifftiau o Risgiau Gwasanaeth unigol sy'n dod o fewn y Risg Gorfforaethol gyffredinol hon e.e. Methiant posibl i gynnal rhwydwaith y Priffyrdd i safonau derbyniol os nad oes digon o gyllid yn cael ei ddyrannu, cyllid annigonol i alluogi rhaglen gynhwysfawr o ran adnewyddu fflyd cerbydau (gan gynnwys y newid i Sero Net) a risg y gallai'r arbedion sydd eu hangen mewn Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion gael effaith fawr ar ddarpariaeth mewn rhai ysgolion.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R005T01: Parhau â'r trefniadau o ran rheolaeth ariannol | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R005T03: Sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran trawsnewid a gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u gweithredu | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ● |
| R005T04: Diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i adlewyrchu lefel ddangosol o 3.1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25 | 30 Medi 2023 | ● | ● | ● | ✔ |

Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Rhoddodd Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru gynnydd cyllid o 8.1% (£9.6m) ar gyfer 23/24. Fodd bynnag, gyda thua £22m o bwysau Costau (sy'n cyfateb i gyfradd chwyddiant o dros 13%), mae hynny'n dal i arwain at arbedion o tua £9m ar gyfer 23/24 a chynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor.

Mabwysiadwyd dull newydd o weithredu o ran Arbedion y Gyllideb a oedd yn cynnwys adolygiad o benawdau Corfforaethol y gyllideb (£2.9m), Cyfradd Cyfraniadau Is Cyflogwyr i'r Gronfa Bensiwn (£0.8m), terfyn ar y cynnydd a gymhwyswyd i gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion (£2.1m) a Rhaglen Arbedion aml-flwyddyn newydd o'r enw 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu' wedi'i rhoi ar waith (£3m ar gyfer 23/24 a chynigion cychwynnol pellach ar gyfer y 2 flynedd y tu hwnt i hynny). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyllid Setliad Cyllid Llywodraeth Leol 24/25 o 3.1% yn unig ar gyfartaledd (a fyddai'n rhoi £4m ychwanegol). Cytunwyd ar ddyfarniad Cyflog y Staff Cyffredinol ar gyfer 23/24 o'r diwedd ym mis Tachwedd 2023 a rhagorodd hyn ar Ddarpariaeth y Gyllideb o tua £0.6m (ar ôl darparu ar gyfer y swm Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau ac Ynni).

Ystyriodd y Cabinet adroddiad monitro'r Gyllideb yn ystod y flwyddyn ar gyfer Chwarter 2 ar 05/12/23. Y sefyllfa a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn ar hyn o bryd yw gorwariant o £2.7m (sef 1.5% o gyllideb Refeniw 23/24 o £180.1m), sydd ar ôl cymryd i ystyriaeth amrywiol gamau lliniaru gwerth cyfanswm o £4.3m). Mae nifer o heriau i'w gweld ar draws y Gwasanaethau gan gynnwys:

- Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol yn parhau i fod yn uchel ac yn rhy ddrud
- Cynnydd sylweddol yng nghostau Cludiant i Ddysgwyr rhwng y Cartref a'r Ysgol
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir
- Costau sylweddol yn ymwneud â staff asiantaeth yng Nghartrefi Preswyl yr Awdurdod Lleol ac mewn rolau Gweithiwr Cymdeithasol statudol.
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn
- Cynnydd sylweddol yn y gorwariant ym Mhorth Cynnal o Ch1 i Ch2.

Rhoddodd y Grŵp Arweiniol, gyda mewnbwn a chyngor y swyddog Adran 151, fframwaith yn ei le adeg Ch1 ar draws yr holl Wasanaethau (ac eithrio Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion sy'n gyfrifoldeb Cyrff Llywodraethu unigol). Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfyngu gwariant lle bo modd am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd hyn yn berthnasol i wariant refeniw nad yw'n ymwneud â staffio a hefyd gweithgarwch recriwtio allanol, ond mae'n cael ei wneud mewn ffordd reoledig i gydnabod y bydd angen parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol, rhwymedigaethau contractiol a rhwymedigaethau presennol craidd ac er enghraifft bod gweithgarwch sy'n sail i incwm neu sy'n cael ei ariannu gan grant(iau) yn gallu parhau. Bwriad y dull hwn o weithredu yw arafu, oedi neu gyfyngu dros dro ar wariant nad yw'n hanfodol / nad yw'n hollbwysig.

Mae Proses y Gyllideb 24/25 bellach yn mynd rhagddi'n dda gyda 3 Gweithdy Cyllideb i Aelodau yn cael eu cynnal ers mis Medi 2023. Y Gweithdy diweddaraf yn cynnwys proses flaenoriaethu ar gyfer yr holl Aelodau er mwyn helpu i lunio a blaenoriaethu pa feysydd o'r Gyllideb a allai fod o fewn cwmpas arbedion, pa feysydd oedd yn fwy tebygol o gael eu diogelu a thrafodaethau pellach ynghylch lefelau posibl Treth y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae pwysau amcangyfrifedig y Cyngor o ran costau ar gyfer 24/25 yn sylweddol - o bosibl yn agos at £20m sy'n cyfateb i chwyddiant o 11%. Mae gwaith ar Gyllideb 24/25 yn parhau. Mae lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn debygol o gael ei phennu gan lefel Ystyriaethau'r Arbedion i'r Gyllideb y mae Aelodau'n fodlon eu gwneud, a bydd y sefyllfa'n dechrau crisialu pan gyhoeddir Setliad Llywodraeth Cymru ar 20/12/23.

Mae gwaith sylweddol hefyd wedi ei wneud i osod y sylfaen i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad ar 14/12/23 ar lefel Premiymau Treth y Cyngor i'w codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor o 01/04/23.

# Risg Gorfforaethol R009 Rheoli Gwybodaeth

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alan Morris

### Disgrifiad


Bydd methu â sicrhau bod gennym gydymffurfiaeth effeithiol ar waith o ran Rheoli Gwybodaeth yn cynyddu'r risg a'r difrod o unrhyw dor diogelwch data neu dor-rheolaeth llywodraethu. Bydd gwendid o ran cydymffurfio hefyd yn effeithio ar ein gallu i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Gall hyn arwain at risg uwch o ddirwyon, colli data neu fynediad at un neu ragor o systemau ac achosi niwed i enw da.


### Y Canlyniadau Posibl

Gallai methu â llywodraethu prosesu data yn gwbl addas arwain at – • Prosesu amhriodol • Risgiau Diogelwch • Methiannau o ran sicrwydd cyflenwyr • Gwneud penderfyniadau gwael • Niwed i enw da • Difrod i ddefnyddwyr gwasanaethau.

### Tystiolaeth o’r Ri

• Capasiti dan bwysau i symud prosiectau ymlaen. • Diffyg manylion Cofrestr Prosesu Gwybodaeth • Diffyg cadw gweithredol ar ffeiliau electronig • Arferion gwael o ran cadw cofnodion electronig. • Anhawster cynnal y safonau gofynnol. • Diwedd oes yr EDRMS cyfredol.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R009T04: Parhau ag Archwilio Data ar draws pob maes gwasanaeth | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ● |
| R009T05: Gweithredu amserlen cadw cofnodion a gymeradwywyd | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R009T08: Datblygu adolygiad rheolaidd ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth | 31 Maw 2024 | | | ★ | ★ |

### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)


Cynnydd da wedi'i wneud o awtomeiddio a rheoli gwendidau'r system Cynnydd rhagorol wedi'i wneud ar reoli cleientiaid. Teclynnau rheoli ochr y gweinydd wedi’u cyflwyno. Gwaith mudo hen weinyddion yn cael ei flaenoriaethu ac yn cael ei gyflawni. Cyflymder newid a darganfod gwendidau newydd sy’n golygu bod gwaith yn cael ei ddadwneud mor gyflym ag y gellir ei atgyweirio. Problemau wedi’u codi o ran gallu a chostau cynyddu gallu yn cael eu hystyried.

# Risg Gorfforaethol R019 Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd**


## Disgrifiad

Newid hinsawdd yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf a wynebwn. Er y bydd peidio â chyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon ac ynni yn cael effaith ariannol ac amgylcheddol i'r Awdurdod, ceir goblygiadau ehangach ar gyfer y Sir gyfan, e.e. mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd, a allai gael effaith enfawr ar ein cymunedau ac ar ystâd y Cyngor sy'n cynnwys ein hadeiladau, ysgolion, Gwarchodfeydd Natur, Parciau, rhandiroedd a hefyd daliadau eraill nad ydynt yn cael eu rheoli'n weithredol. Cydnabyddir bod rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn ei wneud i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol, a rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a'u lliniaru. Rhaid datblygu a gweithredu mentrau polisi a strategaethau sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd os ydym am lwyddo i leihau ein hôl troed carbon a lleihau'r risg i'n prif seilwaith, asedau, trigolion, cymunedau a thirwedd.




## Y Canlyniadau Posibl

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn efallai'n wynebu digwyddiadau tywydd amlach neu fwy difrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Gyda'r digwyddiadau hyn daw 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac effaith bosibl ar yr economi. Mae rhannau o forlin Ceredigion yn agored i erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o lifogydd a cholli tir o gyrsiau dŵr. Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gyda rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd neu'n newid bywyd, gydag effaith ar rannau mawr o'r Sir/Cyngor.
Yn ogystal, gallai peidio â lleihau effeithiau newid hinsawdd gael canlyniadau o ran enw da, canlyniadau ariannol ac amgylcheddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am beidio â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli carbon a bioamrywiaeth.
Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i bryfed, plâu a chlefydau a fydd yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a chostau eraill i ddelio â hyn yn sylweddol. Mae colli brigdwf oherwydd clefyd coed ynn eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd yn ogystal â chyfrannu atynt.




## Tystiolaeth o'r Risg

Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn digwydd ar draws y byd; mae'n cael effaith ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Ceredigion wedi nodi lleoliadau yn y Sir sydd mewn perygl nawr ac a fydd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd erydu arfordirol a llifogydd, a llifogydd o brif afonydd/cyrsiau dŵr/dŵr wyneb. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos er mwyn atal newid hinsawdd rhaid atal allyriadau carbon – nid yw eu lleihau yn ddigonol, mae'n rhaid i ni fynd ymhellach a gweithio tuag at fod yn awdurdod lleol sero-net.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R019T01: Datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Corfforaethol | 31 Maw 2024 | ● | ■ | ■ | ■ |
| R019T03: Cynyddu faint o ynni a gynhyrchir trwy ffynonellau adnewyddadwy. | 31 Maw 2024 | ● | ★ | ★ | ★ |
| R019T04: Nodi a rheoli'r ystâd gorfforaethol | 31 Maw 2024 | ● | ■ | ■ | ■ |
| R019T05: Datblygu Cynlluniau Lleihau Llifogydd | 31 Maw 2024 | ● | ● | ● | ● |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| R019T06: Monitro'r morlin gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru, datblygu Amddiffyniad yr Arfordir | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R019T08: Gwneud cais am gyllid i weithredu prosiectau sy'n lliniaru effaith newid hinsawdd | 31 Maw 2024 | ● | ● | ● | ● |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae gwaith cynllun ynni'r ardal leol yn dod yn ei flaen yn dda, mae Energy Systems Catapult (ESC), yr ymgynghorydd sy'n ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd yn cwblhau'r gwaith modelu ac mae gweithdai wedi'u trefnu ar gyfer 23ain Tachwedd (Gweithdy 4) a 7fed Rhagfyr (Gweithdy 5). Mae adroddiad terfynol y Cynllun Ynni Ardal Leol i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024, ac mae Cynllun Gweithredu Strategol Strategaeth Ynni Ranbarthol wedi'i ddatblygu a'i adolygu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn gyfredol. Mae Swyddog Lleihau Carbon newydd wedi'i benodi a fydd yn helpu i gyflawni cynlluniau lleihau allyriadau, a fydd yn cyfrannu at uchelgais Sero-Net y Cyngor ar gyfer 2030. Cafwyd caniatâd i fwrw ymlaen â fframwaith Re:fit a llofnodwyd y cytundeb cychwynnol. Mae Re:fit yn fframwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni, a fydd yn rhoi modd i Gyngor Sir Ceredigion ddarparu cynlluniau effeithlonrwydd ynni a chynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fwy. Mae ymarfer Profi Marchnad Feddal cychwynnol wedi'i gwblhau gyda golwg ar dendrau i'w dychwelyd erbyn 26ain Ionawr. Mae asesiad o'r ôl troed carbon gweithredol blynyddol bellach wedi'i gwblhau ar gyfer 2022/23 ac a welodd ostyngiad o 2.11%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn cyfateb i ostyngiad o 22.64% dros y 5 mlynedd diwethaf a gostyngiad o 57.44% ers cyhoeddi'r Cynllun Rheoli Carbon cyntaf. Cyflwynwyd Adroddiad Allyriadau Blynyddol Llywodraeth Cymru ym mis Medi, ar ôl cwblhau'r ffigurau allyriadau gweithredol blynyddol. Mae'r gwaith ar adolygu'r Cynllun Rheoli Carbon wedi cychwyn, gan edrych ar alinio â'r Cynllun Gweithredu Sero-Net ac uchelgais sero-net ar gyfer 2030. Mae taenlenni wedi cael eu rhannu gyda'r holl Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, gan fanylu ar allyriadau gan Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ond hefyd yn gofyn am gynlluniau lleihau allyriadau/arbed ynni sydd ganddyn nhw mewn golwg ar gyfer y gwasanaethau maen nhw'n eu rheoli. Ar hyn o bryd wrthi'n edrych ar gyfleoedd PV ar gyfer cartrefi gofal, a ddylai fod yn gallu cael eu darparu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol - mae dogfennau tendr yn cael eu hadolygu, gyda'r bwriad o gael tendr allan cyn y Nadolig. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyflwyno rhaglen pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan Cam/Blwyddyn 3 Cyngor Sir Ceredigion gyda ffocws ar ddarparu cyfleusterau a reolir gan y gymuned, ynghyd â recriwtio Prosiectau a Rheolwr Rhaglen penodedig. Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan a osodwyd yn y ddau gyfnod cynharach i gyd yn weithredol gyda darpariaeth gwefru cerbydau trydan wedi'i chynyddu'n sylweddol iawn o ganlyniad i ymyrraeth y cyngor dros y 18 mis diwethaf, gyda 76 o leoedd cerbydau trydan bellach ar gael ar draws 18 lleoliad yn y Sir – mae mwy o wybodaeth ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/gwefru-cerbydau-trydan-yng-ngheredigion/ a https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/newyddion/2023/ceredigion-ar-y-brig-gyda-darpariaeth-gwefru-cerbydau-trydan/
Cynllun Lliniaru Llifogydd Camlas y Borth - Achos Cyfiawnhad Busnes - Anfonwyd gwahoddiad tendr i'r cynllun benodi ymgynghorydd newydd ym mis Gorffennaf 2023 gan ddefnyddio'r Fframwaith Gwasanaethau Peirianneg Sifil Rhanbarthol - Fframwaith Gwasanaethau Peirianneg Sifil Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Cafodd yr awdurdod 1 cynnig ac mae'r cynnig wrthi'n cael ei werthuso. Nodwyd ymgynghorydd newydd ym mis Medi 2023. Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentref Llandre - Mae'r prosiect wedi'i orffen ac mae Achos Cyfiawnhad Busnes drafft wedi'i roi i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i arfarnu. Nodwyd nad oes cynllun ymarferol. Achos Busnes Amlinellol Capel Bangor – mae adolygiad Model a Hydroleg Capel Bangor wedi'i anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru gan yr ymgynghorydd er mwyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ei adolygu'n unol â chais Llywodraeth Cymru cyn i Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddaru gael ei orffen. Achos Busnes Amlinellol Tal-y-bont - Mae'r Achos Busnes Amlinellol drafft wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer sylwadau tra bod y rhediadau modelu hydrolig yn cael eu cwblhau. Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn parhau i fonitro'r arfordir amddiffynedig ar ran Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu'r dystiolaeth yn seiliedig ar ddata sy'n angenrheidiol ar gyfer ein penderfyniadau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac i fonitro'r newid arfordirol. Mae'r data a gasglwyd yn rhoi tystiolaeth i ddiweddaru gwybodaeth mewn perthynas ag esblygiad arfordirol, codiad yn lefel y môr a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Rhennir unrhyw ddata arfordirol ychwanegol a gesglir gan Gyngor Sir Ceredigion gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerfaddon, sy'n bwriadu gosod sganiwr laser parhaol yn y Borth am gyfnod o 12 mis. Argymhellwyd y cyflwyniad ar gyfer prosiect Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ar gyfer cyllid, ond mae amserlenni cymeradwyo yn aneglur ar hyn o bryd. Mae cyllid grant wedi'i gymeradwyo ar gyfer nifer o ddatblygiadau cynllun Grant Craidd Cronfa Teithio Llesol cymeradwy a mân waith, ac ar gyfer adeiladu 'Cysylltiad Waunfawr i Ibers/ Plas Gagerddan - Cam 1' - £ 1.49 miliwn. Gwaith cyflawni prosiectau yn ystod y flwyddyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Adroddiad Blynyddol Teithio Llesol Statudol wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr ac wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Medi https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/


# Risg Gorfforaethol R020 Clefyd Coed Ynn

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Rhodri Llwyd**

## Disgrifiad


Clefyd coed ynn yw'r clefyd coed mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen, a bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth oddeutu 90% i 95% o goed ynn yn y DU, ac mae coed ynn yn gyffredin ar draws Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys ar gyrion coetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed sbesimen ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r haint clefyd coed ynn yn achosi i'r coed freuo, colli canghennau ac yn y pen draw gallent gwympo. Mae'r newidiadau strwythurol i'r pren mewn coed ynn sy'n marw yn cynyddu'n sylweddol y risg o'r coed yn cwympo.

Mae clefyd coed ynn eisoes yn cael effaith ar y brigdwf ar draws y sir. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd y ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystâd Gorfforaethol y Cyngor. Gan gymryd bod dwysedd tebyg o goed ynn ar draws yr holl dir cyhoeddus a phreifat arall, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd, mae effaith a gaiff colli coed oherwydd clefyd coed ynn dros y 5 mlynedd diwethaf a dros y 5 mlynedd nesaf ar ôl troed carbon Ceredigion, y microhinsawdd ac effeithiau lleol ar newid hinsawdd yn sylweddol.




## Y Canlyniadau Posibl

Ceir posibilrwydd parhaus ar gyfer marwolaeth neu anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan gynnwys risgiau i swyddogaethau statudol neu ddarparu gwasanaethau, gyda phroblemau iechyd a diogelwch cynyddol oherwydd dirywiad coed ynn ar ffyrdd, parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a llwybrau troed. Cynnydd yn y gwariant o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i Glefyd Coed Ynn. Bydd allyriadau carbon o goed sy'n cwympo/angen eu symud yn cael effaith ar darged carbon sero-net 2030 y Cyngor, a bydd angen paratoi rhaglen blannu sylweddol dros y degawd nesaf i wneud iawn am y coed ynn a gollwyd. Bydd yr ecosystemau a ddarperir gan goed ynn yn cael eu colli, e.e. ansawdd aer, lleihau llifogydd, cysgodi trefol, cynnydd mewn lefelau sŵn a cholli sgriniau gweledol gyfagos â'r priffyrdd, storio carbon, atafaelu carbon a chynefin ar gyfer bioamrywiaeth, a risgiau i rywogaethau/safleoedd a warchodir trwy newid a cholli strwythur, sefydlogrwydd a chyfansoddiad cynefinoedd.




## Tystiolaeth o'r Risg

Mae clefyd coed ynn eisoes yn gyffredin ac yn weladwy ar draws y Sir. Mae canllaw cenedlaethol ar gyfer asesu coed sydd â'r clefyd, gan ddefnyddio system yn seiliedig ar y ganran o frigdwf byw, wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen gweithredu i roi sylw i'r risgiau sy'n codi yn sgil dirywiad coed. Argymhellir y dylid gweithredu pan fydd oddeutu 50% o'r goron yn weddill. Oherwydd graddfa cwblhau arolwg ar draws yr holl goed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, mae dull blaenoriaethol o weithredu wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel yn cael eu harolygu gyntaf. I gyflawni hyn mae dadansoddiad risg ansoddol wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried y tebygolrwydd o gael anaf a difrifoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr awdurdod y nodwyd y bydd yn debygol o gael ei effeithio gan glefyd coed ynn. Rhoddwyd ystyriaeth i newidynnau megis y nifer amcangyfrifedig o goed ynn, y nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o ran cyflymder a gwelededd ar y priffyrdd. Mae Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn amcangyfrif y gallai'r cyfanswm cost i'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risg o glefyd coed ynn fod tua £9.4m dros gyfnod o 10 mlynedd, a bydd angen £20m pellach i ddelio â choed ynn ar dir preifat.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R020T04: Ymgymryd â chynllun gwaith â blaenoriaeth i docio/symud coed fel y bo angen | 31 Maw 2024 | ● | ★ | ★ | ★ |
| R020T05: Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfleoedd cyllid eraill i fynd i'r afael â'r risg a achosir gan | 31 Maw 2024 | ■ | ■ | ■ | ■ |

Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r fframwaith gwaith coed newydd wedi cau i dendrau, mae pum contractwr wedi gwneud cais ac mae'r broses o asesu'r cynigion wedi dechrau, rhagwelir y bydd y broses wedi'i chwblhau a chontractwyr yn ymuno erbyn diwedd Ionawr/dechrau Chwefror 2024. Mae gwaith yn parhau i ddod o hyd i berchnogion coed ar ochr y ffordd sydd mewn perchnogaeth breifat, ac yna rhoddir hysbysiad ffurfiol dan Adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gofyn i'r perchennog fynd i'r afael â'r materion o fewn cyfnod penodedig. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith o gyfarwyddo perchnogion coed preifat yr ystyrir eu bod yn risg i'r cyhoedd/traffig lle maent yn hongian dros y briffordd. Mae’r un dull o weithredu yn cael ei ddefnyddio o ran coed sy’n cael eu dwyn i’n sylw gan ymholiadau gan aelodau’r cyhoedd ac mae’r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith arolygu coed a nodwyd.


Mae cynllun gwaith blaenoriaethol newydd i docio / tynnu coed yn ôl yr angen yn mynd rhagddo ar gyfer y chwarter hwn ac i mewn i'r chwarter nesaf, hyd at fis Mawrth. Bydd y fframwaith newydd unwaith y bydd ar-lein yn hwyluso hyn. Mae ymdrechion helaeth wedi'u gwneud i chwilio am opsiynau ariannu allanol, ond eto nid oes dim cyfleoedd cyllid grant o'r fath ar gael, ond mae'r swyddog clefyd coed ynn yn cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr mewn awdurdodau eraill ac yn parhau i fonitro argaeledd cyfleoedd ariannu allanol.

# Risg Gorfforaethol R021 Ffosffadau

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering


### Disgrifiad

Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru (gan gynnwys Afon Teifi) ynghyd â chyfarwyddyd safbwynt cynllunio dros dro (wedi'i ddiweddaru Mai 2021).
Y Cyngor yw'r awdurdod cymwys fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ofynnol iddo roi sylw i'r cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ac o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
Mae effaith ffosffadau ar 50% o'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a 14% o'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol a ddynodwyd yn y CDLl. Cyfanswm y tir a effeithir yng Ngheredigion yw 806 km2 / 44.6% o'r sir. Cyfyngir ar 14 o safleoedd tai a neilltuwyd gan ddarparu 572 o gartrefi posibl ac o'r rhain roedd disgwyl i 114 ohonynt fod yn rhai fforddiadwy. Mae problemau sylweddol o ran datblygu yn yr ardal hon. Disgwylir i'r ardal yr effeithir arni gynyddu pan fydd gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach yn cael eu rhyddhau mewn perthynas â'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.




### Y Canlyniadau Posibl

Mae'n debygol iawn y bydd datblygu ar draws y Sir yn cael ei gyfyngu'n fawr hyd nes y gall mesurau gael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau maethynnau ar amgylcheddau afonol a morol. Gallai hyn gyfyngu ar allu'r Cyngor i ddarparu prif elfennau ei Strategaeth Gorfforaethol, y Strategaeth Economaidd, y Cynllun Datblygu Lleol, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Disgwylir i'r sefyllfa waethygu pan fydd data yn ymwneud ag asesiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu rhyddhau yn 2022 a fydd â goblygiadau mawr ar gyfer gweddill y Sir.




### Tystiolaeth o'r Risg

Mae monitro maethynnau gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau nad yw 8 o'r 16 gorsaf fonitro ar Afon Teifi yn cwrdd â'u targedau a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Felly, nid ydynt yn bodloni gofynion eu statws ffafriol cadwriaethol, ac o bosib yn difrodi'r ecosystemau bregus a oedd yn sail i'w dynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae targedau o'r fath hefyd yn cael eu monitro ar gyfer maethynnau eraill yn Ardal Cadwraeth Arbennig Teifi a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ar hyd ein harfordir.

| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R021T01: Sicrhau bod pob cais, cynllun a phrosiect yn cael ei sgrinio yn unol â chyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T02: Codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol a nodi ffyrdd i fireinio'r cyfarwyddyd | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T03: Gweithio ar lefel is-genedlaethol a chenedlaethol trwy'r gweithgorau i gael atebion | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T04: Ceisio atebion lleol, dysgu o arferion gorau mewn mannau eraill, defnyddio asedau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor | 30 Medi 2023 | ★ | ● | ★ | ★ |
| R021T07: Parhau i lobïo am ddull 'Tîm Cymru' o weithredu gan gynnwys rhestr liniaru genedlaethol a data | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R021T08: Ystyried atebion lleol megis Cyfleusterau Trin Preifat a gweithio gyda Dŵr Cymru | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r Awdurdod wedi creu Bwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi sydd wedi cytuno ar gylch gorchwyl, ac wedi penodi staff gan gynnwys rheolwr rhaglen a Swyddog Maethynnau penodedig ar gyfer afon Teifi. Mae'r awdurdod wedi sicrhau cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer monitorau ansawdd dŵr a bydd tendr yn mynd allan yn fuan i gaffael y synwyryddion, yr unig afon yng Nghymru sydd â thechnoleg o'r fath. Mae'r awdurdod wedi cwblhau'r prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau i leihau ffosffadau ar y ddaear trwy osod 4 cynllun SDCau, 9km o ffensys glannau afon, 16 o gynlluniau rheoli fferm ac 8 gwaith gwella cyfalaf fferm ac wedi ymgymryd ag ymgysylltiad rheoli tanciau carthion. O dan y prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau mae'r awdurdod hefyd wedi datblygu 3 ateb sy'n seiliedig ar natur hyd at y cam dylunio amlinellol (2 wlyptir ac 1 coetir gwlyb) y daethpwyd o hyd i bartner ar gyfer un ohonynt a phartner ariannu posibl ar gyfer un arall. Mae'r awdurdod wedi nodi cronfeydd wrth gefn i gefnogi mesurau lleihau ffosffadau pellach ac mae'n ystyried ei asedau ei hun. Mae'r awdurdod yn chwarae rhan ganolog yng nghynllun gweithredu ffosffadau'r Prif Weinidog ac mae'n mynychu amrywiol weithgorau cenedlaethol ac isranbarthol yn rheolaidd. Yn olaf, mae Afon Teifi wedi'i dewis fel dalgylch arddangos ar gyfer dull 'Tîm Cymru' o adfer afonydd, gan weithio gydag asiantaethau niferus i fabwysiadu dull arloesol ac arbrofol o adfer afonydd. Mewn termau cenedlaethol mae gwaith ffosffadau Afon Teifi yn arwain ar draws Cymru ac yn sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer amrywiaeth o atebion a fydd, ymhen amser nid yn unig yn datgloi datblygiad ond hefyd yn adfer iechyd yr afon mewn ffordd gydlynol.

# Risg Gorfforaethol R022 Recriwtio a Chadw

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Geraint Edwards

**Disgrifiad**


Bydd methu â recriwtio staff i rolau allweddol yn cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol a'r gofyniad i fodloni cyfrifoldebau statudol a deddfwriaethol.


**Y Canlyniadau Posibl**

Gall effaith methu â recriwtio mewn modd amserol arwain at anallu i fodloni dyletswyddau statudol neu ofynion deddfwriaethol; anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol; neu ei gwneud yn heriol i wasanaethau ymateb i alwadau sy'n newid. Byddai hyn yn arwain at ymyrraeth gan reoleiddwyr a/neu gael ein rhoi mewn mesurau arbennig, gan greu pwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb a niweidio enw da'r Cyngor, a fyddai'n effeithio ymhellach ar frand ein cyflogwr a'n gallu i recriwtio. Yn ogystal, gallai methu â recriwtio arwain at effaith negyddol ar weddill y gweithlu o ganlyniad i orfod rhannu'r llwyth gwaith ychwanegol.

**Tystiolaeth o'r Risg**

Marchnad lafur heriol a welir yn y nifer uchel hanesyddol o swyddi gwag ledled y DU, y gyfradd isaf o ddiweithdra ers 1974 a'r cynnydd yn nifer y bobl economaidd anweithgar. Methiant i recriwtio mewn nifer o rolau proffesiynol er gwaethaf sawl ymgyrch. Mwy o ddefnydd o staff asiantaeth i gyflawni rolau allweddol â chymwysterau proffesiynol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac uwch reolwyr.




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R022T02: Ymgymryd â meincnod cyflogau holl awdurdodau lleol Cymru | 30 Tach 2023 | ● | ● | ● | ● |
| R022T04: Ystyried cynllun prentisiaeth aml-lefel | 31 Mawrth 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R022T05: Parhau i lobïo dros raddfa gyflog Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol | 30 Medi 2023 | ■ | ★ | ★ | ★ |


**Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma)**


Mabwysiadwyd Cynllun Gweithlu 2023-2028 gan y Cabinet ym mis Medi ac mae'r gwaith o weithredu targedau blwyddyn 1 wedi dechrau. Mae'r Cynllun yn allweddol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw gyda ffocws ar frandio cyflogwyr, y broses ymgeisio, llais y gweithiwr, uwchsgilio digidol, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynllun graddedigion a rhaglenni prentisiaeth. Mae'r broses ymgeisio ddiwygiedig wedi'i drafftio a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Arweiniol yn gynnar yn Ch3 er mwyn ei chymeradwyo a'i gweithredu. Mae lobïo ar raddfa gyflog Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol wedi digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys ar lefel Llywodraeth Cymru.

# Risg Gorfforaethol R023 Diwedd Oes Systemau

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alan Morris

| Disgrifiad |
|---|
| Mae gennym amrywiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â systemau sy'n cyrraedd diwedd eu hoes a chynnal diogelwch. Bydd WCCIS (System Rheoli Gofal Cymdeithasol) yn cyrraedd diwedd ei hoes 01/26. SharePoint EDRMS eisoes ar ddiwedd ei hoes Amrywiaeth o systemau eraill angen eu mudo yn fuan. Ar gyfer WCCIS Daw ein contract i ben ym mis Mawrth 2024 ond caiff ei reoli fel contract Cymru gyfan o dan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'r gwaith o gaffael system newydd yn cael ei gyflawni gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ond efallai na chaiff ei gwblhau tan ddiwedd y contract gan adael dim amser i fudo a gallai arwain at ddim gwasanaeth yn ei le. Bydd Systemau Newydd yn colli mynediad at ddata'r GIG. |
| **Y Canlyniadau Posibl** |
| Os bydd systemau'n cyrraedd diwedd eu hoes, ni fyddant yn cael eu cynnal a'u cadw o safbwynt diogelwch ac yn creu risgiau seiber, ond bydd cyrraedd diwedd y contract yn arwain at golledion ar unwaith. Mae mesurau lliniaru ar waith ar gyfer pob system arall, ond ar gyfer WCCIS, os na chytunir ar estyniadau i gontractau, mae'n bosibl y bydd cymorth yn cael ei golli ar 24 Mawrth. Os na chytunir ar gaffael, yna mae'n bosibl y bydd y system yn cael ei cholli heb un newydd yn ei lle. Ni fyddai'r gwasanaeth yn gallu rheoli achosion, a gallai hyn arwain at golli mynediad, storio data'n anniogel a gwasanaeth anniogel. Gall mudo i system newydd redeg allan o amser ac effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Efallai na fydd gan y system newydd gymaint o ddata gan bartneriaid gan adael darlun llai cyflawn a gofyniad am fwy o gydweithio â llaw. |
| **Tystiolaeth o'r Risg** |
| • Ni fydd diweddariadau diogelwch yn cael eu gwneud ar ôl Ion 26 • Caffael yn dechrau yn 24 ond yn dibynnu ar achos busnes Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyllid gan Lywodraeth Cymru na chytunwyd arno. • Cynlluniau'r prosiect yn dangos y caiff ei weithredu yn Rhagfyr 25 gan gadael dim amser i fudo. • Diffyg gallu gan y gwasanaeth i dderbyn y newid hwn. • Adnoddau cyfyngedig i hyfforddi staff |




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R023T01: Gwella prosesau Sicrhau Ansawdd i alluogi data glanach ar gyfer trosglwyddo'n gyflym | 31 Maw 2025 | | | | ● |
| R023T02: Parhau i ddatblygu a dogfennu prosesau busnes fel y gellir ymgorffori proses glir mewn unrhyw ateb newydd yn gyflym | 31 Maw 2025 | | | | ● |
| R023T03: Gweithio i gefnogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu manylebau caffael | 31 Maw 2025 | | | | ● |
| R023T04: Cynllunio gwasanaethau i ohirio prosiectau eraill er mwyn gwneud amser i newid swyddogaethau busnes | 31 Maw 2025 | | | | ● |

| Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma) |
|---|
| Penodwyd rheolwr prosiect newydd i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chefnogi ffrydiau gwaith. Casglu gwybodaeth a chefnogi dadansoddiad gofynion. |

# Risg Gorfforaethol R024 Seibergadernid

## Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alan Morris

### Disgrifiad


Ni all Seibergadernid warantu ymwrthedd rhag ymosodiadau seiber a difrod o fethiannau yn y system. Gall amddiffyn rhag ymosodiadau manteisgar, gyfyngu ar ddifrod a chynllunio ar gyfer adferiad haws a chyflymach o ddigwyddiadau o'r fath. Ni fydd ein hamddiffynfeydd yn amddiffyn rhag hacwyr a gefnogir gan wladwriaeth, ond byddwn yn targedu opsiynau adfer cost-effeithiol. Bydd methu â sicrhau bod gennym seibergadernid effeithiol ar waith yn cynyddu’r risg o niwed o ymosodiadau seiber neu broblemau gyda'r system


### Y Canlyniadau Posibl

Gallai methiant seibergadernid arwain at golli mynediad at ddata yn y tymor hwy neu’n barhaol. Bydd hyn yn arwain at niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau, gall arwain at orfodi, colli data neu fynediad at un neu ragor o systemau ac achosi niwed sylweddol i enw da.

### Tystiolaeth o’r Risg

• Bygythiad seiber y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar lefel uwch. • Anhawster wrth gynnal y safonau angenrheidiol. • Sawl digwyddiad mawr i gyflenwyr a phartneriaid. • Digwyddiadau Seiber Dyddiol • Diffyg adnoddau • Hunanasesiad • Asesiadau allanol




| Camau Lliniaru | Erbyn Pryd | Rhag | Maw | Meh | Medi |
|---|---|---|---|---|---|
| R024T01: Gweithio tuag at Fabwysiadu’r Fframwaith Asesu Seiber | 31 Maw 2025 | | | | ● |
| R024T02: Cefnogi datblygiad SOC Cymru | 31 Maw 2025 | | | | ● |
| R024T03: Cynyddu gallu a gwybodaeth y Staff Diogelwch | 31 Maw 2025 | | | | ● |

### Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma)

Mae aelod newydd o staff wedi'i benodi'n fewnol i fod yn swyddog seiberddiogelwch penodedig ond ni fydd yn cael ei ôl-lenwi tan y flwyddyn newydd.